



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

Uned Cyfeirio Disgyblion Powys

**Neuadd y Sir Powys
Spa Road East
Llandrindod
Powys
LD1 5LG**

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2024

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

Ynglŷn ag Uned Cyfeirio Disgyblion Powys

Enw'r darparwr	Uned Cyfeirio Disgyblion Powys
Awdurdod lleol	Cyngor Sir Powys
Iaith y darparwr	Saesneg
Math o ysgol	Uned cyfeirio disgyblion
Darpariaeth breswyl?	Na
Darpariaeth ar fwy nag un safle?	Oes
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	33
Disgyblion o oed ysgol statudol	33
Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol)	01/02/2016
Dyddiad dechrau'r arolygiad	20/05/2024

Ar ôl dadgofrestru dwy uned cyfeirio disgyblion yn y sir, sefydlwyd Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) Powys ym mis Rhagfyr 2014. Mae'n darparu addysg ar gyfer hyd at 60 o ddisgyblion rhwng 7 ac 16 oed. Ar hyn o bryd, mae 33 o ddisgyblion ar y gofrestr ar draws yr ystod oedran cynradd ac uwchradd.

Mae gan yr UCD ddau safle, un yn Y Drenewydd a'r llall yn Aberhonddu. Mae gan ddisgyblion sy'n mynychu Uned Cyfeirio Disgyblion Powys ystod o anawsterau cymdeithasol, emosiynol, ac ymddygiadol. Mae'r UCD yn darparu ar gyfer disgyblion sydd naill ai wedi cael eu gwahardd yn barhaol o ysgolion ym Mhowys, neu sydd mewn perygl o gael eu gwahardd. Mae'r UCD hefyd yn cyflwyno gwasanaethau tiwtora meddygol ac yn darparu cymorth allymestyn ymddygiad i ysgolion lleol.

Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, ac nid yw unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf. Mae gan ychydig dros hanner y disgyblion gofrestriad deuol gydag ysgol brif ffrwd. Ar hyn o bryd, mae gan 6 disgybl amserlen ran-amser a chynllun cymorth bugeiliol ar waith. Mae ychydig iawn o ddisgyblion wedi dychwelyd i addysg brif ffrwd amser llawn dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae ychydig llai na hanner y disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'n hysbys fod ychydig iawn o ddisgyblion yn ofalwyr ifanc, ac mae ychydig iawn o ddisgyblion yng ngofal yr awdurdod lleol. Nodwyd bod gan y rhan fwyaf o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol.

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fysgolleol.llyw.cymru

- Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

Trosolwg

Dros gyfnod, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol o'u manau cychwyn cychwynnol. Mae llawer o ddisgyblion yn ymuno â'r UCD ar ôl cyfnodau o darfu ar eu haddysg. Mae llawer o ddisgyblion yn ymgynefino'n dda, yn meithrin perthnasoedd adeiladol ac ymddiriedus â'u staff a'u cyfoedion, ac yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu. Mae hyn yn gynnydd cryf i'r disgyblion hyn. Fodd bynnag, mae materion presenoldeb yn effeithio ar gyfradd cynnydd lleiafrif o ddisgyblion ar draws yr UCD.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae disgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol a chyfathrebu yn llwyddiannus. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu darllen yn briodol, ac yn unol â'u gallu. Yn yr un modd, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn briodol. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau mathemategol yn llwyddiannus. Wrth i ddisgyblion symud trwy'r UCD, maent yn datblygu ystod gynhwysfawr o fedrau digidol. Mae bron pob un o'r disgyblion hyn yn cyflawni ystod briodol o achrediad mewn pynciau craidd.

Mae addysgu yn gryf ar draws yr UCD. Mae staff yn yr UCD yn adnabod anghenion eu disgyblion yn dda ac yn creu amgylchedd dysgu digynnwrf. Mae staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda. Mewn llawer o achosion, mae'r dysgu'n diwallu anghenion unigol disgyblion yn effeithiol.

Mae'r UCD yn darparu cwricwlwm sy'n briodol o eang a chytbwys sy'n diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae ystod o lwybrau cymwysterau addas ar waith, sy'n galluogi disgyblion hyn i gyflawni'n dda. Mae'r UCD yn cynorthwyo disgyblion unigol i brofi ystod gyfyng o gyrsiau galwedigaethol yn y coleg lleol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn rhan sefydledig o arlwy'r cwricwlwm yn yr UCD ar gyfer pob disgybl.

Mae'r cwricwlwm yn yr UCD yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o'u 'cynefin'. Fodd bynnag, mae cynllunio ac olrhain datblygiad medrau graddol ar draws yr UCD yn anghyson. Er enghraifft, nid yw arlwy'r cwricwlwm ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn raddol yn yr UCD wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Nodwyd bod gan lawer o ddisgyblion angen dysgu ychwanegol, ac mae ganddynt naill ai gynllun datblygu unigol (CDU) statudol neu ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran olrhain yn systematig y cynnydd a wna disgyblion o ran targedau eu CDU.

Mae staff yn yr UCD yn cynorthwyo disgyblion yn unigol i gynllunio'u cam dysgu nesaf. Mae hyn yn cynnwys cefnogi a chynghori ar geisiadau priodol i leoliadau addysg bellach a/neu brofiad gwaith. Fodd bynnag, nid yw'r defnydd o brofiad gwaith yn nodweddiadol sefydledig ar draws yr UCD.

Ceir diwylliant diogelu cryf yn yr UCD. Mae canllawiau a gweithdrefnau diogelu'r UCD yn gynhwysfawr, ac mae pob un o'r staff yn gwybod am eu cyfrifoldebau i gadw disgyblion yn ddiogel tra byddant yn yr UCD.

Nid oes gan yr awdurdod lleol weledigaeth strategol na chynllun gwella clir ar gyfer yr UCD. O ganlyniad, mae arweinwyr yn yr UCD yn ansicr ynglŷn â'u rolau a'u cyfraniad o fewn yr awdurdod lleol i gynorthwyo disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol (AHY).

Mae trefniadau arweinyddiaeth yn wahanol ar draws y ddau safle. Ar safle'r Drenewydd, bu newid sylweddol i'r uwch dîm arweinyddiaeth am gyfnod amser sylweddol. Caiff hyn effaith negyddol ar allu arweinwyr i gynllunio'n effeithiol ar gyfer gwella, darparu cymorth cynaledig ar gyfer staff a sefydlu prosesau a systemau ar y safle hwn.

Ar draws y ddau safle, mae angen cryfhau prosesau hunanwerthuso. Nid yw'r drefn o ran olrhain data yn strategol a'i ddadansoddi'n bwrpasol wedi'i datblygu'n ddigonol. Mae hyn yn cyfyngu ar allu arweinwyr i wneud penderfyniadau cadarn wrth nodi meysydd i'w gwella.

Mae angen cryfhau rôl y pwyllgor rheoli. Er bod aelodau'n gefnogol, nid yw eu rôl i herio arweinwyr i wella yn effeithiol wedi'i datblygu'n ddigonol. O ganlyniad, nid ydynt yn dwyn arweinwyr i gyfrif yn ddigonol.

Mae "Cynefin" yn derm a ddiffinnir gan y Cwricwlwm i Gymru fel 'y lle rydym yn teimlo ein bod yn perthyn, lle mae'r bobl a'r dirwedd o'n cwrpas yn gyfarwydd, a'r golygfeydd a'r synau'n gysurol o adnabyddadwy'.

Argymhellion

- A1 Dylai arweinwyr weithio gyda'r awdurdod lleol i sefydlu gweledigaeth strategol ar gyfer yr UCD
- A2 Sefydlogi ac egluro rolau a chyfrifoldebau arweinwyr yn yr UCD
- A3 Gwella gweithdrefnau sicrhau ansawdd, hunanwerthuso a chynllunio gwelliant ar draws yr UCD
- A4 Gwella presenoldeb

Beth sy'n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o'r farn fod angen gwelliant sylweddol ar yr UCD hon. Bydd yr UCD yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr UCD tua 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Prif ganfyddiadau

Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn ymuno â'r UCD ar ôl cyfnodau o darfu ar eu haddysg. Dros gyfnod, mae llawer o ddisgyblion yn ymgynefino'n dda, yn meithrin perthnasoedd adeiladol ac ymddiriedus â'u staff a'u cyfoedion, ac yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu. I'r disgyblion hyn, mae hyn yn gynnydd cryf. Fodd bynnag, mae materion presenoldeb yn effeithio ar gyfradd cynnydd lleiafrif o ddisgyblion ar draws yr UCD.

Mewn gwersi a thros gyfnod, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol o'u manau cychwyn cychwynnol ac yn erbyn eu targedau personol. O ran eu hanghenion, maent yn gwneud cynnydd mewn ystod o feysydd sy'n cefnogi eu dysgu a'u datblygiad medrau personol. Mae'r medrau hyn yn paratoi disgyblion yn dda ar gyfer eu bywydau yn y dyfodol.

Yn y rhan fwyaf o wersi, mae disgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol ac ystod o fedrau cyfathrebu gwerthfawr yn llwyddiannus. Maent yn gweithio'n dda ochr yn ochr â'u cyfoedion, yn cefnogi dysgu ei gilydd ac yn mwynhau cwmni ei gilydd. Er enghraifft, mae disgyblion yn datblygu medrau gwaith tîm defnyddiol trwy adeiladu tyrau wedi'u creu o wellt a ffyn lolipop. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando ar farn disgyblion eraill a staff, ac yn ei pharchu. Mae llawer o ddisgyblion yn cyflwyno gwybodaeth a dealltwriaeth newydd yn hyderus. Er enghraifft, maent yn rhannu gwybodaeth am dechnegau llythrennedd, sut caiff trydan ei gynhyrchu neu sut i ddefnyddio codio i greu gêm ddigidol. Yn ychwanegol, maent yn ymateb yn gwrtais wrth sgwrsio ag ymwelwyr yn yr UCD. Yn ystod amseroedd egwyl a chinio, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymdeithasu'n hapus ac yn hyderus â'u cyfoedion a'r staff.

Mewn gwersi, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu darllen yn briodol ac yn unol â'u gallu. Mae disgyblion iau yn ymdrin â geiriau anghyfarwydd yn hyderus ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r strategaethau sydd eu hangen i bennu ystyr. Maent yn datblygu mwynhad o ddarllen trwy wrando ar yr athro dosbarth yn darllen storïau. Maent yn ymuno'n frwdfrydig ac yn darllen brawddegau byr ar goedd yn hyderus gyda rhuglder a mynegiant. Mae llawer o ddisgyblion hyn yn llithrddarllen ac yn sganio testunau ac yn gallu dod o hyd i wybodaeth yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn dangos medrau darllen a deall priodol i ymateb i ddarllen erthyglau am gestyll a chwedlau lleol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn briodol. Mae disgyblion iau yn dechrau ysgrifennu geiriau ac ymadroddion syml. Er enghraifft, maent yn creu tocynnau i fynd ar fwrdd y Titanic neu'n creu llyfrau jôcs i'w cyfoedion eu mwynhau. Mae disgyblion hyn yn ysgrifennu'n effeithiol mewn brawddegau a pharagraffau gyda graddau priodol o gywirdeb. Maent yn datblygu storïau gyda chymeriadau a disgrifiadau i ychwanegu diddordeb at eu hysgrifennu. Mae llawer o ddisgyblion hyn yn ysgrifennu at amrywiaeth o wahanol ddibenion. Maent yn ysgrifennu darnau ffeithiol o destun yn llwyddiannus, wedi'u strwythuro'n briodol a chan ddefnyddio terminoleg bwnc gywir, er enghraifft i esbonio sut mae adweithydd niwclear yn gweithio. Mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth glir o

ddiben eu hysgrifennu, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyrau perswadiol at yr Aelod Seneddol lleol yn gwneud awgrymiadau am welliannau yn yr UCD.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau mathemategol yn briodol. Mae disgyblion iau yn adio, tynnu a dyblu rhifau yn fedrus. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio adio, tynnu, lluosu a rhannu â hyder cynyddol ac yn gallu esbonio'u dulliau a'u rhesymu. Mae disgyblion hŷn yn dadansoddi data i gyfrifo cyflymder tonnau, ac yn cynhyrchu ystod o graffiau yn llwyddiannus o wahanol setiau data, gan gynnwys data hinsawdd a chyfrifiad.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu medrau creadigol addas. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn arbrofi ag amrywiaeth o ddeunyddiau i greu paentiadau o Fannau Brycheiniog a modelau lliwgar o rocedi. Mae disgyblion hŷn yn creu arddangosfeydd blodau deniadol wedi'u gwneud o gapiau bothau car, ac yn adeiladu cynwysyddion planhigion sy'n cael eu harddangos ar draws yr UCD.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn addas. Mae disgyblion iau yn dangos rheolaeth a balans cynyddol yn ystod eu chwarae. Maent yn datblygu ystod o fedrau taflu pêl ac yn datblygu eu medrau echddygol bras trwy falansio ar drawstiau cul. Mae disgyblion hŷn yn adeiladu ar y medrau hyn i ddatblygu medrau hyfedr mewn chwaraeon fel tennis bwrdd a defnyddio'r gampfa leol. Mae disgyblion hŷn yn gwerthuso medrau ei gilydd yn dda i wella'u techneg.

Wrth i ddisgyblion symud trwy'r UCD, maent yn datblygu ystod gynhwysfawr o fedrau digidol. Mae hon yn nodwedd nodedig yn yr UCD. Mae disgyblion iau yn defnyddio rhaglenni cyhoeddi i greu logos digidol ar gyfer persawrau a diodydd hud y maent yn eu creu. Mae disgyblion hŷn yn trin delweddau a thestun yn llwyddiannus i greu cylchgronau diddorol ar Barciau Cenedlaethol. Mae disgyblion iau yn cynorthwyo'u cyfoedion i ddefnyddio codio i greu gemau cyfrifiadur. Mae disgyblion hŷn yn rhaglennu sfferau robotig yn llwyddiannus i fodelu orbitau'r systemau planedau mewnol ac yn rhaglennu micro-bitau i greu mesuryddion camau.

Mae bron pob un o'r disgyblion hŷn yn cyflawni ystod o achrediad mewn pynciau craidd, yn ogystal â meysydd sy'n adlewyrchu eu galluoedd yn dda.

Dros y tair blwyddyn academiaidd ddiwethaf, aeth bron pob un o'r disgyblion a oedd yn gadael yr UCD ymlaen i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Lles ac agweddau at ddysgu

Mae gan bron bob un o'r disgyblion agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn aros yn y dosbarth hyd ddiwedd gwrs, yn ymdawelu'n gyflym ac yn gweithio'n ddiwyd. Mae llawer o ddisgyblion yn barod i wneud eu gwaith ac yn dod yn unigolion mwy hyderus yn ystod eu cyfnod yn yr UCD. Mae disgyblion yn foesgar a chwrtais, ac mae bron pob un ohonynt yn dangos parch at eu cyd-ddisgyblion. Ni therfir arnynt yn ormodol pan fydd eu cyfoedion yn cael trafferth rheoli eu hemosiynau a'u hymddygiad. Mae bron pob un o'r disgyblion yn barchus at staff ac mae llawer o ddisgyblion yn gwrandao ar staff ac yn dilyn eu cyfarwyddiadau y tro cyntaf. Mae'r rhai nad ydynt yn gwneud hynny yn ymgysylltu yn y pen draw, gyda chymorth sensitif a medrus gan staff.

Dros eu cyfnod yn yr UCD, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu perthnasoedd cryf ac ymddiriedus â'r tîm staff. Mae hyn yn eu cynorthwyo i wybod at bwy i droi am gymorth ac arweiniad. Caiff disgyblion eu trin yn deg a gyda pharch. Mae disgyblion yn ddiogel yn yr UCD ac yn dweud eu bod yn rhydd rhag bwlio a niwed geiriol a chorfforol.

Dros gyfnod, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dysgu deall a rheoli eu hemosiynau. O ganlyniad, mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion ar draws y ddau safle yn eithriadol o dda. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol yn parhau'n isel. Yn ddiweddar iawn, mae'r UCD wedi cymharu gwybodaeth am waharddiadau ar gyfer pob disgybl cyn ymuno â'r UCD, ac ers hynny. At ei gilydd, i lawer o ddisgyblion, bu gostyngiad sylweddol mewn gwaharddiadau, ac nid yw ychydig dros hanner y disgyblion wedi cael eu gwahardd o gwbl ers ymuno â'r UCD. Mae hyn yn gyflawniad sylweddol i ddisgyblion.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwella'u presenoldeb yn yr UCD o gymharu â'u presenoldeb yn eu hysgol flaenorol. I'r disgyblion hyn, mae hyn yn gynnydd sylweddol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn mynychu'n ddigon rheolaidd, sy'n cael effaith negyddol ar eu dysgu. Yn ychwanegol, mae ychydig o ddisgyblion sy'n ei chael yn anodd mynychu'r UCD yn rheolaidd yn dilyn amserlenni rhan-amser pwrpasol, ac yn mynychu gwersi am gyfnodau byr yn unig yn ystod yr wythnos. I ychydig iawn o ddisgyblion, nid yw trefniadau cludiant wedi cael eu darparu ac fe gaiff hyn effaith negyddol ar eu gallu i fynychu'r UCD.

Mae llawer o ddisgyblion yn dysgu gweithio'n dda gyda'u cyfoedion mewn grwpiau bach wrth chwarae gemau ac ymgymryd â gweithgareddau dysgu. Mae disgyblion yn mwynhau'r profiadau cyfoethogi wythnosol buddiol a ddarperir gan yr UCD. Er enghraifft, mae disgyblion yn gweithio mewn grwpiau bach fel rhan o weithgaredd llywio geogelcio ym Mannau Brycheiniog. Maent yn cynyddu eu hyder a'u gwydnwch ac yn gweithio'n dda fel tîm o fewn eu grwpiau cyfoedion.

Mae tua hanner y disgyblion ar safle Aberhonddu yn ymgymryd yn frwdfrydig â'u rolau arwain fel llysgenhadon. Mae disgyblion yn cymryd y rolau hyn o ddifrif ac yn mynd ati i ysgogi newidiadau, er enghraifft gwelliannau i dir yr UCD a newidiadau i'w gwisg ysgol. Mae'r profiadau hyn yn rhoi llais i ddisgyblion, sydd yn ei dro yn cael effaith gadarnhaol ar eu hunan-barch a'u hunan-werth, ac yn eu helpu i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Nid yw trefniadau ffurfiol i ddisgyblion ddatblygu rolau arwain ar safle'r Drenewydd wedi'u datblygu'n ddigonol.

Addysgu a profiadau dysgu

Ar draws llawer o wersi, mae addysgu yn gryf. Mae staff yn frwdfrydig ac yn angerddol am addysgu a dysgu. Mae staff yn yr UCD yn adnabod anghenion eu disgyblion yn dda ac yn creu amgylchedd dysgu digynnwrf. Maent yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda. Bron ym mhob achos, mae gan staff berthnasoedd gweithio cryf â disgyblion ac maent yn gweithio'n galed i feithrin a datblygu'r rhain i sicrhau bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion.

Mae'r profiadau dysgu i lawer o ddisgyblion o fewn yr UCD ar draws y ddau safle yn gryf. Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau ystod o weithgareddau dysgu lle mae staff yn greadigol wrth ddod o hyd i ffyrdd ysgogol o ymgysylltu â'r disgyblion. Er

enghraifft, yn ystod y testun diweddar ar ddŵr, defnyddiodd disgyblion bensesiau realiti rhithwir i gael profiad o rwyfo ar afon Gwy. Ar y ddau safle, mae staff yn gweithio gyda'i gilydd i rannu syniadau a choladu adnoddau ar gyfer gwersi. Fodd bynnag, caiff staff gyfleoedd cyfyngedig i rannu arfer effeithiol rhwng y safleoedd neu gyda darparwyr eraill.

Mewn llawer o achosion, mae'r dysgu'n canolbwyntio ar ddisgyblion ac yn diwallu anghenion unigol disgyblion yn effeithiol. Dros y flwyddyn ddiwethaf, bu ffocws cynyddol ar ddatblygu llais y disgybl, ac mae hyn yn dechrau amlygu yn y profiadau a gaiff disgyblion o fewn yr UCD. Defnyddir cwestiynau ffrwydrol gan ddisgyblion ar ddechrau pob testun. Er enghraifft, yn sgil y cwestiwn ffrwydrol 'o ble daw inc', bu disgyblion yn ymchwilio i hanes inc, a sut caiff inc ei wneud.

Mae llawer o staff yn rhoi adborth yn fedrus i ddisgyblion sy'n glir a chydlynus. Mae disgyblion yn ymateb yn dda i adborth llafar i wella'u camau nesaf mewn dysgu, boed hynny'n gadarnhaol neu'n heriol. At ei gilydd, mae adborth ysgrifenedig staff yn adlewyrchu'r polisi marcio yn dda.

Mae ystod eang o asesiadau gwaelodlin a phrosesau olrhain ar waith ar draws yr UCD. Fodd bynnag, nid yw'r defnydd strategol o'r data hwn i ddadansoddi a datblygu ymagwedd gyson at werthuso cynnydd disgyblion gan athrawon wedi'i datblygu'n ddigonol. O ganlyniad, nid yw athrawon yn gwneud y defnydd gorau yn gyson o'r data sydd ar gael i fonitro'r cynnydd a wna disgyblion yn ystod eu cyfnod yn yr UCD.

Mae'r UCD yn darparu cwricwlwm sy'n briodol o eang a chytbwys sy'n diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion. Caiff disgyblion ar draws yr UCD gyfle i ddysgu trwy gwricwlwm teilwredig a difyr. Mae ystod o lwybrau cymwysterau addas ar waith, sy'n galluogi disgyblion hŷn i gyflawni'n dda. Megis dechrau y mae datblygu medrau ar draws y cwricwlwm. Mae cynllunio ac olrhain datblygiad medrau graddol ar draws yr UCD yn anghyson. Mae'r cwricwlwm yn yr UCD yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o'u 'cynefin'. Er enghraifft, nid yw arlwy'r cwricwlwm ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn raddol yn yr UCD wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Mae disgyblion ar safle'r Drenewydd yn mynd ar leoliadau profiad gwaith sy'n fuddiol. Pan fo'n briodol, mae'r UCD yn cynorthwyo disgyblion unigol i brofi ystod gyfyng o gyrsiau galwedigaethol yn y coleg lleol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn rhan sefydledig o arlwy'r cwricwlwm yn yr UCD.

Cyflwynir addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh) trwy ystod o gynlluniau masnachol addas ar gyfer disgyblion hŷn, a thrwy gynllunio penodol ar gyfer y disgyblion iau. Mae'r UCD yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion weithio gydag amrywiaeth o siaradwyr allanol, a dysgu oddi wrthynt. Er enghraifft, mae'r nyrs ysgol yn darparu gwybodaeth am bynciau fel hylendid personol ac iechyd rhywiol.

Mae staff yn deall pwysigrwydd addysgu addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh), o fewn UCD Powys a'r effaith y gall hyn ei chael ar ddisgyblion. Mae staff yn empathig i ofynion disgyblion yn y maes hwn ac yn cynllunio gwaith sy'n adlewyrchu eu hanghenion sy'n newid yn barhaus. Mae'r cynllunio ar gyfer ABCh yn llym ac yn adlewyrchu'r materion sy'n effeithio ar y disgyblion.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r perthnasoedd cadarnhaol a pharchus a sefydlodd y staff gyda disgyblion yn gryfder yng ngwaith yr UCD. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol iawn at y gofal, y cymorth a'r arweiniad a gaiff disgyblion yn ystod eu cyfnod yn yr UCD. Mae hyn yn arwyddocaol o ystyried bod bron pob un o'r disgyblion wedi profi anawsterau mewn ysgol brif ffrwd, yn cynnwys cyfnodau o waharddiadau neu gyfnodau amser sylweddol heb unrhyw addysg ffurfiol.

Mae defnyddio cyfres o waith celf perthnasol a datganiadau cadarnhaol ar safle'r Drenewydd, er enghraifft, yn helpu creu amgylchedd lle mae disgyblion yn gwybod bod "newid yn dechrau yma", mai "yr unig beth sy'n bwysig yw beth rydych chi'n ei wneud nawr" a "grym ail gyfle". Mae'r themâu hyn yn gyrru gwaith yr UCD yn dda ar draws y ddau safle.

Nodwyd bod gan lawer o ddisgyblion angen dysgu ychwanegol a bod ganddynt naill ai gynllun datblygu unigol (CDU) statudol neu ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn glir ynghylch pam mae disgyblion heb anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu rhoi mewn darpariaeth arbenigol. Mae'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodwyd yn CDUau disgyblion iawn yn cynnwys, yn ddefnyddiol, ystod o dargedau addas a ddewiswyd gan ddisgyblion a staff, lle bo'n briodol. Megis dechrau datblygu y mae'r drefn o olrhain yn systematig y cynnydd a wna disgyblion o ran targedau eu CDU.

Mae staff yn yr UCD yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid allanol i gefnogi anghenion ei disgyblion. Mae staff yn yr UCD yn asesu ac olrhain lles emosiynol disgyblion, a phan fydd pryderon, yn cyfeirio at bartneriaid perthnasol. Mae staff yn defnyddio'r wybodaeth a rennir gan asiantaethau eraill i roi cymorth sensitif i ddisgyblion ar faterion sy'n berthnasol i'w bywydau. Mae staff yn cysylltu'n rheolaidd â gweithwyr proffesiynol a allai gynorthwyo disgyblion a'u teuluoedd.

Defnyddir gwybodaeth berthnasol a phersonoledig am brofiadau niweidiol a thrawma disgyblion yn y gorffennol ochr yn ochr â strategaethau defnyddiol ar sut orau i gynorthwyo disgyblion pan fyddant yn ailintegreiddio i ysgolion prif ffrwd. Mae ychydig o ddisgyblion wedi ailintegreiddio'n llwyddiannus dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae ychydig iawn o ddisgyblion wedi eu cofrestru i fynychu'r UCD yn unig, ac mae hyn yn ei gwneud yn anodd i'r UCD ailintegreiddio'r disgyblion hyn mewn ysgolion prif ffrwd.

Mae'r UCD yn cynorthwyo disgyblion o ysgolion arbennig lleol i astudio eu cyrsiau TGAU. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr iddynt nad ydynt efallai ar gael fel rheol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o degwch, chwarae teg a chynaliadwyedd, er enghraifft trwy weithgareddau amrywiol i godi arian. Ar safle Aberhonddu, mae hyn yn cynnwys digwyddiadau fel boreau coffi a ffair thema'r Arctig yn gwerthu cynhyrchion wedi'u creu gan ddisgyblion.

Yn ogystal â'r cyngor, y cymorth a'r arweiniad unigol a ddarperir gan staff, mae gan yr UCD ddarpariaeth effeithiol i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o ystod eang o faterion cymdeithasol a moesol sy'n berthnasol i bobl ifanc a

chymdeithas. Mae'r rhain yn cynnwys llwybrau achrededig mewn iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a phobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol. Mae disgyblion yn archwilio'r themâu hyn ac yn ystyried yr effaith a gânt ar unigolion a chymdeithas. O ganlyniad, caiff mythau eu chwalu, maent yn deall sut i herio stereoteipiau ac yn dod yn ddinasyddion mwy gwybodus yn eu cymunedau.

Eir gyda disgyblion ar safle'r Drenewydd i'r gampfa leol, lle bo'n briodol. Maent yn dilyn cynlluniau hyfforddi ac yn defnyddio ystod o offer. Yn ychwanegol, mae disgyblion yn dysgu bocsio ac yn rhoi sylwadau ar y modd y mae'r profiad yn eu galluogi i "gael gwared ar fy ymddygiad ymosodol" ac yn eu galluogi i "ddysgu medrau bocsio newydd". O ganlyniad, mae disgyblion sy'n manteisio ar y ddarpariaeth hon yn meddu ar ddealltwriaeth glir o bwysigrwydd ymarfer corff a'r effaith gadarnhaol a gaiff hyn ar eu lles. Ar ôl y cymorth a'r cyfleoedd a ddarperir gan staff yn yr UCD, mae disgyblion wedi mynd ymlaen i ymuno â thimau rygbi lleol ac ymuno â chlwb rhedeg. Mae gweithgareddau eraill oddi ar y safle yn cynnwys saethyddiaeth a rhaffau uchel. Mae'r profiadau hyn yn mynd â disgyblion y tu hwnt i sefyllfaoedd y maent yn gyfarwydd â nhw ac yn helpu datblygu eu hyder.

Mae staff yn yr UCD yn cynorthwyo disgyblion yn unigol i gynllunio'u camau nesaf. Mae hyn yn cynnwys cefnogi a chynghori ar geisiadau priodol i leoliadau addysg bellach a/neu brofiad gwaith. Mae lleoliadau profiad gwaith yn rhoi dealltwriaeth gadarn i ddisgyblion o ofynion a gwobrau gweithio yn y diwydiant adeiladu, er enghraifft. Mae staff yn defnyddio'r cwricwlwm i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o fanteision ac anfanteision gyrfaoedd posibl. Mae disgyblion yn asesu pwysigrwydd medrau cyfathrebu a rheoli amser da drostynt eu hunain a sut mae'r rhain yn berthnasol i'w dewis gyrfa. Fodd bynnag, nid yw defnyddio profiad gwaith yn nodweddiadol ar draws yr UCD.

Mae gan yr UCD ddarpariaeth briodol, at ei gilydd, i gefnogi dealltwriaeth ddatblygol disgyblion o bwysigrwydd byw a bwyta'n iach. Fodd bynnag, nid yw'r UCD yn darparu cinio wedi'i goginio ar gyfer disgyblion ar safle'r Drenewydd.

Ceir diwylliant diogelu cryf yn yr UCD. Mae canllawiau a gweithdrefnau diogelu'r UCD yn gynhwysfawr, ac mae pob un o'r staff yn gwybod beth yw eu cyfrifoldebau ar gyfer cadw disgyblion yn ddiogel tra byddant yn yr UCD. Nid yw diogelu yn peri pryder.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Ar draws yr UCD, mae arweinwyr wedi sefydlu ethos sy'n hyrwyddo perthnasoedd gweithio cryf rhwng staff a disgyblion, sy'n meithrin lefelau uchel o ymddiriedaeth a pharch. O ganlyniad, mae'r ddau safle yn darparu amgylchedd dysgu digynnwrf a diogel.

Mae gan UCD Powys ddau safle, un wedi'i leoli yn Aberhonddu ac un yn Y Drenewydd. Mae trefniadau arweinyddiaeth yn wahanol ar draws y ddau safle. Mae sefydlogrwydd yn uwch dîm arweinyddiaeth safle Aberhonddu yn cyfrannu'n gadarnhaol at brosesau cynllunio gwelliant. Ar safle'r Drenewydd, bu newid sylweddol i'r uwch dîm arweinyddiaeth am gyfnod amser sylweddol. Caiff hyn effaith negyddol ar allu arweinwyr i gynllunio'n effeithiol ar gyfer gwelliant a sefydlu prosesau a systemau ar y safle hwn. Er gwaethaf yr ansefydlogrwydd mewn

arweinyddiaeth, mae bron pob un o'r staff ar safle'r Drenewydd yn dangos gwydnwch ac ymrwymiad uchel i ddisgyblion.

Nid oes gan yr awdurdod lleol weledigaeth strategol glir ar gyfer yr UCD. O ganlyniad, mae arweinwyr yn yr UCD yn ansicr ynglŷn â'u rolau a'u cyfraniad o fewn yr awdurdod lleol at gynorthwyo disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol (AHY). O ganlyniad i drefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer lleoli disgyblion yn yr UCD, mae niferoedd eithriadol o isel am gyfnod amser sylweddol ar y ddau safle. Mae newidiadau diweddar i'r prosesau gan yr awdurdod lleol yn dechrau cynorthwyo disgyblion yn llwyddiannus i gael lleoliad yn yr UCD mewn ffordd fwy amserol. O ganlyniad, ers dechrau tymor yr haf, bu cynnydd yn niferoedd y disgyblion ar draws y ddau safle. Nid yw llawer o'r disgyblion hyn wedi bod mewn addysg am gyfnodau amser sylweddol. Mae hyn yn lleihau'r cyfle i ddisgyblion fod yn barod i ddychwelyd i addysg amser llawn ar ôl lleoliad 12 wythnos yn yr UCD. O ganlyniad, mae disgyblion yn aros yn yr UCD am gyfnodau hir.

Ar draws y ddau safle, mae angen cryfhau prosesau hunanwerthuso. Nid yw'r cynllun datblygu presennol wedi cael ei gyd-greu i adlewyrchu'r blaenoriaethau ar gyfer gwella ar safle'r Drenewydd. Mae blaenoriaethau wedi aros yn rhy debyg dros flynyddoedd lawer. Mae hyn o ganlyniad i brosesau cyfyngedig i fonitro'r cynnydd tuag at fodloni blaenoriaethau a nodwyd. O ganlyniad, nid yw'r UCD wedi ymgorffori'r gwelliannau angenrheidiol mewn modd amserol. Nid yw staff yn cyfrannu'n gyson at gynllun datblygu'r UCD. O ganlyniad, nid yw arweinwyr yn nodi'r blaenoriaethau pwysicaf ar gyfer gwella yn gadarn.

Nid yw'r drefn o ran olrhain data yn strategol a'i ddadansoddi'n bwrpasol wedi'i datblygu'n ddigonol. Mae hyn yn effeithio ar allu arweinwyr i wneud penderfyniadau cadarn wrth nodi meysydd i'w gwella.

Nid yw'r drefn o ran rheoli perfformiad ar gyfer staff yr UCD wedi bod yn gyson am nifer o flynyddoedd. Mae hyn wedi cyfyngu ar gyfleoedd i staff gymryd rhan mewn deialog broffesiynol ag arweinwyr, a chytuno ar dargedau perthnasol i staff gefnogi cyflawni blaenoriaethau gwella. Yn ddiweddar, mae rheoli perfformiad wedi cael ei ailgyflwyno ar draws yr UCD, wedi'i gefnogi gan yr awdurdod lleol. Megis dechrau datblygu y mae hyn.

Mae ystod ac argaeledd y cyfleoedd dysgu proffesiynol ar draws yr UCD yn rhy amrywiol. Ar safle Aberhonddu, mae dysgu proffesiynol yn dechrau cael ei gysylltu â'r cyfarfodydd rheoli perfformiad diweddar. Mae hyfforddiant i bob aelod o staff i gefnogi anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl disgyblion wedi bod ar waith dros nifer o flynyddoedd. Ar safle'r Drenewydd, mae angen cryfhau dysgu proffesiynol. Mae hyn wedi cael ei effeithio gan absenoldebau parhaus staff a diffyg arweinyddiaeth sefydlog.

Mae'r diwylliant diogelu yn yr UCD yn gadarn. Mae arweinwyr a staff yn gwybod ac yn deall yn dda beth yw anghenion eu disgyblion a'u teuluoedd. Pan gaiff rhwystrau posibl rhag dysgu, fel tlodi neu anfantais eu nodi, mae arweinwyr yn darparu atebion cadarnhaol yn sensitif. Fodd bynnag, mae ffigurau presenoldeb cyffredinol ar gyfer yr UCD yn rhy isel.

Mae angen cryfhau rôl y pwyllgor rheoli. Mae newidiadau diweddar mewn aelodaeth yn cryfhau set medrau'r pwyllgor. Mae aelodau'n dangos ymrwymiad uchel i'w rolau. Er eu bod yn gefnogol, nid yw eu rôl i herio arweinwyr yn effeithiol a chefnogi gwelliant wedi'i datblygu'n ddigonol. O ganlyniad, nid ydynt yn dwyn arweinwyr i gyfrif yn ddigonol.

Ers yr arolygiad craidd diwethaf yn 2016, nid yw arweinwyr wedi cynnal y cynnydd a wnaed tuag at fodloni tri o'r pum argymhelliad.

Caiff trefniadau ariannol eu rheoli'n briodol. Fodd bynnag, mae prosesau i fonitro effaith yr adnoddau hyn yn rhy amrywiol ar draws y safleoedd.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol / pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol / UCD a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr / pwyllgor rheoli, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol / UCD
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrandio arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol / UCD, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol / UCD
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol / UCD ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol / UCD wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol / UCD, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol / pwyllgor rheoli, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/07/2024